**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1242
Ein cyf/Our ref EM/02198/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Gorffennaf 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 7 Mehefin ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, rwyf wedi amlinellu dull gweithredu dwyran er mwyn sicrhau canlyniadau gwell, a rhoi'r gofal a chymorth gorau posibl i fenywod i'w helpu i barhau'n iach ar hyd eu bywydau.

O ran eich pwynt cyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a fydd yn ein galluogi i roi trosolwg strategol o'n disgwyliadau o ran darparu gwasanaethau iechyd menywod ledled Cymru. Mae ymddiriedolaethau a byrddau iechyd yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd menywod yn unol â'r safonau proffesiynol a'r nodweddion ansawdd a nodir yn y datganiad ansawdd hwn.

Er mwyn ymateb i'r egwyddorion a nodir yn y datganiad ansawdd, bydd GIG Cymru yn paratoi Cynllun Iechyd Menywod a fydd yn disgrifio sut y bydd yn penderfynu ar y ddarpariaeth briodol y mae ei hangen i fodloni anghenion eu poblogaethau lleol, gan gynnwys sicrhau bod y gofal trydyddol priodol ar gael i gefnogi cyflyrau megis endometriosis a'r menopos. Lle bydd gwasanaethau trydyddol yn cael eu darparu, rwy'n disgwyl i'r sgyrsiau perthnasol rhanbarthol gael eu cynnal i sicrhau bod trefniadau ariannu priodol ar waith, a bod llwybrau'n cael eu gweithredu mewn modd teg ar draws Cymru gyfan.

O ran eich ail bwynt, mae fy swyddogion yn cefnogi'r GIG wrth iddo ddatblygu'r Cynllun Iechyd Menywod. Rwyf wedi bod yn glir bod yn rhaid i'r cynllun adlewyrchu mewnbwn sylweddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gan ddangos bod lleisiau a phryderon menywod wedi cael eu clywed.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Clymblaid Iechyd Menywod Cymru yn grŵp o randdeiliaid allweddol, a chwrddais â nhw yn ddiweddar i drafod sut y gallem gydweithio i sicrhau bod lleisiau menywod i'w clywed yn glir drwy'r datganiad ansawdd a'r cynllun. Mae fy swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Glymblaid er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n briodol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r dogfennau hyn. Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynllun yn mynd rhagddo, a bydd proses o ymgysylltu ac ymgynghori parhaus â'r Glymblaid a rhanddeiliaid ehangach yn cael ei chynnal er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gynhyrchu ar y cyd a'i fod yn ymateb i anghenion yr holl fenywod sy'n defnyddio ein gwasanaethau iechyd.

O ran eich trydydd pwynt, mae'r Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod wedi ariannu nyrsys endometriosis arbenigol a chydgysylltwyr iechyd y pelfis a llesiant ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae'r swyddi hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o gefnogi menywod drwy gydol y cyfnod o gael diagnosis a thriniaeth, a hefyd eu cyfeirio at wasanaethau priodol i'w helpu i reoli eu cyflyrau. Mae'r Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod wedi ymrwymo i ariannu'r swyddi hyn am 3 blynedd gyda'r nod o ddatblygu llwybrau gwell i fenywod sy'n dioddef o endometriosis a chyflyrau iechyd y pelfis, a darparu llwybrau cyson ledled Cymru. Serch hyn, dylid nodi bod hwn yn ymrwymiad cyfnod penodol. Rwy'n disgwyl i fyrddau iechyd ystyried y gwaith a'r manteision i fenywod a'r gwasanaeth sy'n deillio o'r adnoddau hyn, gan roi ar waith fesurau parhaol fel rhan o'u rhwymedigaethau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Rwy'n disgwyl i GIG Cymru ystyried hyn wrth ddatblygu'r Cynllun Iechyd Menywod.

O ran eich pwynt sy'n gofyn a fydd endometriosis yn cael ei gynnwys yn y Fframwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd ar gyfer Gofal Sylfaenol, dylid nodi bod y Fframwaith yn cael ei adolygu fel rhan o broses deirochrog sy'n cynnwys y byrddau iechyd a Chymdeithas Feddygol Prydain. Nod yr adolygiad yw sicrhau bod ffocws y Fframwaith yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i Safonau Gofal Iechyd, gan symud oddi wrth ddull gweithredu sy'n cael ei yrru gan dargedau i gylchoedd o brosiectau Gwella Ansawdd. Bydd amrywiaeth eang o brosiectau Gwella Ansawdd yn cael eu datblygu, gan ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth sy'n gwella gofal cleifion, drwy fod ymarfer cyffredinol yn cael yr effaith fwyaf.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services